



**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER
CARCHAR EM CAERDYDD GAN EI FWRDD
MONITRO ANNIBYNNOL**

1 Medi 2010 – 31 Awst 2011

Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 a'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn mynnu bod pob carchar ac IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref o blith aelodau'r gymuned y mae'r carchar neu ganolfan wedi'i leoli ynddi.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol yn benodol am:

1. Fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
2. Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y barna sy'n briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo.
3. **Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol am ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith a gaiff y rhain ar y rhai yn ei gystodaeth.**

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd i gofnodion y carchar.

Cynnwys

Disgrifiad o Garchar Caerdydd	4
Crynodeb Gweithredol	6
Meysydd Adrodd Gorfodol	7
Amrywiaeth	
Dysgu a Sgiliau	
Gofal Iechyd	
Cystodaeth Mwy Diogel a Lleihau Trais	
Uned Wahanu	
Meysydd Eraill	11
Gwaith y Bwrdd	12

Disgrifiad o Garchar Caerdydd

Mae Carchar EM Caerdydd yn garchar lleol traddodiadol yng nghanol y ddinas gyda'i wreiddiau yn dyddio'n ôl i 1827. Ei brif rôl yn flaenorol oedd bod yn garchar i gadw pobl ar gyfer remand a threialon, a charcharorion a ddedfrydwyd i dymhorau byr a chanolig. Roedd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn rhai Fictoraidd yn bennaf gyda lefelau uchel o orlenwi a charcharorion yn rhannu cell rhwng tri yn gyffredin. Adeiladwyd adain newydd ym 1996 i ddarparu ar gyfer 200 o ddynton ychwanegol, gan gynnwys 96 o garcharorion oes. Cwblhawyd gwaith adnewyddu mawr ym mis Awst 2004 gyda'r capasiti gweithredol yn cynyddu i 754 o leoedd, a 70 yn rhagor o fis Rhagfyr 2008 gan greu ein capasiti gweithredol presennol o 804.

Mae Caerdydd yn garchar lleol/hyfforddi Categori B sy'n gwasanaethu'r llysoedd yn hanner dwyreiniol De Cymru, gyda capasiti gweithredol sylfaenol o 804. Mae'n dal cyfuniad o garcharorion ar Remand, rhai ar Dreial, rhai wedi'u heuogfarnu a rhai wedi'u Ddedfrydu a charcharorion Oes. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd mewn hyfforddiant ac addysg, gan fynd i'r afael ag ymddygiad troseddwr a dadwenwyno o ganlyniad i gyffuriau ac alcohol. Mae adolygiad poblogaeth a wnaed yn ddiweddar o garcharorion Cymru wedi arwain at ymestyn dalgylch remand Caerdydd; yng Nghaerdydd gan dderbyn Oedolion Ifainc o'i ddalgylch, ac yn ei swyddogaeth fel carchar hyfforddiant gan ganolbwyntio ar garcharorion sy'n oedolion a ddedfrydwyd i lai na 2 flynedd. Ym mis Ebrill 2011 caewyd bloc preswyl adain G a addasodd y Capasiti Gweithredol i 804 o 824. Hwn oedd y llety gwaelaf yng Nghaerdydd ac roedd yn caniatáu hefyd i arbedion effeithlonrwydd sylweddol gael eu gwneud.

Cafwyd gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth dros y blynyddoedd, gan gynnwys Rhaglenni Ymddygiad Troseddwr (OBP) achrededig, adsefydlu, sefydlu ac atal hunanladdiad. Mae darpariaeth Rhaglenni Ymddygiad Troseddwr yn cynnwys Sgiliau Meddwl, CALM, COVAID ac o fis Hydref rhaglen cyffuriau strategol benodol allanol a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Mae COVAID yn rhaglen sy'n ymdrin ag ymddygiad treisgar ac alcohol ac fe'i cyflwynir o fewn y carchar gan bartneriaid prawf o'r tu allan. Mae gan y rhaglen ddarpariaeth dda gyda nifer o weithdai sy'n darparu gweithgaredd adeiladol.

Mae'r Targed Perfformiad cyffredinol wedi bod yn gyson dda gyda lefelau perfformiad yn cyrraedd Carchar lefel 4 yn ail chwarter 2010/11. Yn Ionawr 2008 cyflawnodd Prif Arolygwyr Carchardai EM ymweliad llawn a gafodd ei gyhoeddi, y cyhoeddwyd adroddiad yn ei gylch ym mis Gorffennaf 2008. Roedd yn adroddiad cadarnhaol, oedd yn nodi bod staff a rheolwyr yn haeddu clod sylweddol am y gwelliannau a wnaethant (gweler isod). Dilynwyd hyn ym mis Mehefin 2010 gydag arolygiad dirybudd gan brif Arolygwyr EM.

Mae Caerdydd yn enwog am SORI, ymyriad a arloeswyd yma, a gychwynwyd gan y tîm caplaniaeth. Mae SORI yn rhaglen Cyfiawnder

Adferol sy'n dod â throseddwyd i gysylltiad â phobl sydd wedi dioddef, er nid dioddefwyr uniongyrchol y carcharorion sy'n cymryd rhan.

Agorwyd Canolfan Gofal Iechyd newydd sbon ym mis Mai 2008. Mae'r cyfleuster yn darparu 21 gwely, a gomisiynwyd yn bennaf gan y Bwrdd Iechyd Lleol (yr hyn sy'n cyfateb yng Nghymru i Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol). Mae'r cyfleusterau yn cynnwys dwy Feddygfa Ddeintyddol gydag offer, ystafell addoli ac ystafelloedd triniaeth a grŵp. Ym mis Mai 2011 dechreuodd y gwaith o adnewyddu a gwella'r ddarpariaeth gweithdy yng Ngharchar EM Caerdydd. Mae hynny, ynghyd â'r Papur Gwyrdd ar y Chwyldro Adsefydlu, wedi ei gwneud yn bosibl i'r sefydliad gynllunio darparu mwy o gyfleoedd gwaith go iawn ar gyfer carcharorion gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol.

Dadansoddiad o'r boblogaeth ar gyfartaledd: fel ar ddiwedd Mai 2011.
Carcharorion Remand – 33.2% Carcharorion wedi'u Dedfrydu – 66.8%
18-21 oed 11.4%, 22-29 oed 36.6%, 30-39 oed 30.2%, 40-49 oed 15.9%,
50-59 oed 4.4%, 60-69 oed 0.9% a 70+oed 0.1%

**Y tri grŵp mwyaf ar hyn o bryd yw: O dan 6 mis - 27.7%, 12mis - 2
flynedd 20.3% a Carcharorion Oes neu 'ISP' - 17.6%,**

Dadansoddiad Ethnig o boblogaeth y carchar:

Asiaidd 3.1%, Du 4.8%, Cymysg 8.6% , Prydeinig Gwyn 83.5%

Crynodeb Gweithredol

Un o'r materion mwyaf arwyddocaol sy'n dylanwadu ar adroddiad eleni yw newid mewn deiliadaeth sy'n deillio o fentrau rheoli strategol a newidiadau sefydliadol a nodwyd gan NOMS Cymru. Y duedd fu colli'r categorïau mwy sefydlog o garcharorion a chymryd cyfrifoldeb am niferoedd cynyddol o bobl ar remand a phersonél tymor byr gan gynnwys troseddwr ifanc. Mae'r lefelau cydredol o gynnwrf a 'chorddi' yn cael eu teimlo gan bob Adran. Mae'n rhaid i reolwyr Carchardai a'r holl staff weithio'n galed iawn ac yn ddychmygus i leihau effeithiau andwyol posibl y newid mawr hwn. Mae hyn ar adeg pan geir pwysau ar y staff a achosir gan broblemau gyda staffio a chyflog a phroblemau posibl gyda chontractio allanol.

Mae gofal iechyd yn parhau i fod yn bryder mawr; sydd yn aml yn deillio o faterion yn ymwneud â thryloywder. Mae'n galonogol adrodd bod y materion hyn yn cael sylw blaenllaw gan y Llywodraethwr ac mae wedi gofyn i'w Ddirprwy gynnal adolygiad sylfaenol o'r holl systemau Gofal Iechyd. Cafodd y symbyliad ar gyfer gweithredu o'r fath ei atgyfnerthu gan adroddiad beirniadol gan y Crwner i farwolaeth carcharor a oedd ynghlwm wrth y Gofal Iechyd.

Mae'r angen i gadw Gwladolion Tramor heb eu collfarnu neu eu cadw y tu hwnt i'w dyddiad rhyddhau yn dal yn faes sy'n peri pryder. Ymddengys fod nifer na ellir ei ostwng o wladolion tramor heb eu collfarnu a rhai y mae eu dedfrydau wedi dod i ben sy'n aros yn y carchar oherwydd nad oes ganddynt basbort neu ddulliau eraill o gael eu dychwelyd.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithredu gyda llai na'r nifer angenrheidiol o aelodau ers peth amser bellach, ac er bod aelodau newydd yn dod drwedd yn araf, nid yw'r Bwrdd wedi gallu rhoi sylw manwl i nifer o feysydd diddordeb arbennig. Rhoddwyd blaenoriaeth i feysydd fel Gofal Iechyd, Cystodaeth Mwy Diogel, Amrywiaeth a Strategaeth Cyffuriau a bydd y sylw a roddir i feysydd ychwanegol yn cael ei wella'n raddol wrth i fwy o aelodau cynhyrchiol gael eu sefydlu.

Yn olaf, mae'r Bwrdd yn mwynhau perthynas waith ardderchog gyda staff y Carchar ar bob lefel, ac mae parch cadarnhaol yn bodoli i rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. Hoffwn gofnodi fy nioch ffurfiol am y cyfeiriad a'r agwedd gyffredinol a osodwyd gan y Llywodraethwr yn y gwaith o reoli'r sefydliad ac am y parch cyffredinol a'r cydweithrediad y mae'r arweinyddiaeth yma yn ei feithrin ymysg yr uwch reolwyr a'r staff.

Gerwyn Butler
Cadeirydd

Meysydd Adrodd Gorfodol

Amrywiaeth

Sicrhawyd cynnydd da eleni o dan arweiniad y Dirprwy Lywodraethwr. Cafodd llawer o'r anghysonderau allweddol o flynyddoedd cynharach eu rhesymoli a chyflwynwyd ymdeimlad newydd o gydlynad a rhesymoledd i'r maes enfawr hwn. Cafodd y cyfathrebu ei wella'n aruthrol drwy benodi cynrychiolwyr Amrywiaeth gwirfoddol ar bob adain i gydlynu'r adborth yn ôl i Fforymau'r Carchardai ac mae teimlad bod lleiafrifoedd yn ymgysylltu yn gyffredinol. Mae'n arbennig o dda gweld bod Oed yn ennill proffil priodol fel grŵp diddordeb.

Mae proses y Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiadau yn ymwneud â Gwahaniaethu yn amlwg ym mhob adain.

Dysgu a Sgiliau ac Ailsefydlu

Mae'r holl weithgareddau addysg a hyfforddiant wedi cael eu heffeithio'n ddwys gan y newidiadau i ddeiliadaeth carchardai. Mae llawer mwy o faich ar brofi ac asesu ar gyfer llythrennedd sylfaenol a gallu rhifedd ac yna mae llawer llai o gyfle ar gyfer ymyriadau sefydlog. Rhagwelir y bydd effeithiau a goblygiadau'r newidiadau yn cael eu datrys yn well unwaith y bydd y systemau wedi bod yn gweithredu am gyfnod hwy.

Adsefydlu

Mae'r Uned Adsefydlu yn cael ei rheoli'n dda ac mae ganddi staff yn llawn cymhelliant sydd yn agored i ymchwilio i syniadau newydd. Maent yn croesawu mewnbwn ac awgrymiadau.

Darperir yr ystod briodol o wasanaethau i garcharorion i helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau ac i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys Gwasanaethau Cyfreithiol, Mechnïaeth, y Gwasanaeth Prawf, Llety, Cyflogaeth, cymorth a budd-daliadau'r Awdurdod Lleol, cyllid personol ac ystod o ganllawiau ymarferol i gefnogi her y pontio o'r ddalfa i'r tu allan. Yn ogystal, bydd nifer o gyrsiau hyfforddi wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r pontio gan gynnwys y Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP), Rheoli Dicter a Dysgu Ei Reoli (CALM), Rheoli Trais ar gyfer Yfwyr Gorfodol Blin (COVAID) a'r Rhaglen Fer (CDY) ar gyfer troseddwyr sydd â phroblemau gyda chamddefnyddio sylweddau. Gwneir asesiad o addasrwydd gan Fwrdd Rhyddhau a gynhelir tua 6 wythnos cyn y dyddiad rhyddhau disgwylidig i ddilysu bod yr holl anghenion o ran y rhyddhad wedi cael eu bodloni.

Mae cyflogaeth a thai ar ôl rhyddhau carcharorion yn hanfodol o ran helpu cyn-droseddwyr i aildechrau bywyd normal yn y gymuned. Ni chafodd y Targed Perfformiad Allweddol (KPT) ar gyfer cyflogaeth o'r fath ei gyflawni ar

ddechrau'r cyfnod adrodd oherwydd bod y Swyddog Cyflogaeth ar ddyletswydd mewn lle arall. Fodd bynnag, erbyn diwedd y cyfnod roedd perfformiad ychydig yn uwch na'r targed o 20%.

Rhagorwyd ar y Targed Perfformiad Allweddol ar gyfer Tai wrth ryddhau carcharorion yn ystod y flwyddyn gyda chyfartaledd o 99.12% yn erbyn targed o 90%; sy'n berfformiad clodwiw iawn.

Mae cynrychiolydd o'r IMB yn mynychu cyfarfodydd Adsefydlu bob dau fis ac yn cael ei wahodd bob amser i ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau ar faterion sy'n cael eu trafod. Mae staff ailsefydlu yn agored ac yn barod iawn i gynorthwyo pan ofynnir am wybodaeth.

Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl

Bu rhai newidiadau sylweddol i'r modd y trefnir ac y cynhelir y cyfleuster Gofal Iechyd yng Ngharchar EM Caerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwy wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd sydd i ddod. Mae gan yr adeilad, sy'n eiddo ar wahân gyda 22 gwely a adeiladwyd at y pwrpas, gyfleusterau rhagorol sydd ar gael i ddarparu ar gyfer poblogaeth y carchardai yng Nghaerdydd ac weithiau carchardai lleol eraill sydd angen y gwasanaeth hwn.

Mae'r Dirprwy Lywodraethwr wedi sefydlu adolygiad mewnol cynhwysfawr o'r holl swyddogaethau a'r prosesau Gofal Iechyd gyda'r nod o wella gofal cleifion a'r modd y darperir gwasanaethau yn gyffredinol.

Newid nodedig oedd dadgomisiynu Adain 'G' sy'n cadw'r carcharorion sydd wedi camddefnyddio sylweddau a'r staff. Mae rhywfaint o'r gymuned dadwenwyno wedi symud i Ofal Iechyd a chafodd y gweddill eu gwasgaru i'r boblogaeth gyffredinol gyda chrynodiad ar F1. Mae'r symudiad hwn yn amlwg wedi gwella amodau'r carcharorion sy'n cael eu dadwenwyno ac sydd angen sylw meddygol. Mae rhai manteision sydd wedi deillio o'r symudiad hwn wedi helpu i wella clinigau a gwasanaethau eraill oedd wedi cael problemau yn y gorffennol o ganlyniad i ddiffyg staff disgyblaeth yn mynd gyda'r carcharorion. Gyda'r chwe aelod staff disgyblaeth penodol ychwanegol ar gael i hebrwng, gwellwyd y gallu i fynychu apwyntiadau mewn arbenigeddau eraill (deintyddion, optegwyr ac ati). Yn y Dangosyddion Perfformiad Iechyd diweddaraf ar gyfer carchardai, roedd yn welliant ar y llynedd gyda'r sefydliad yn sgorio gwyrdd ym mhob maes, ar wahân i un sy'n dangos ambr, oedd yn ymwneud â sgrinio iechyd eilaidd, a oedd wedi sgorio coch yn flaenorol.

Mae gwasanaeth nyrsio 24 awr y dydd yn parhau a chafodd contract gwasanaeth meddygol y meddygon teulu ei newid ym mis Ebrill 2011 oddi wrth Serco Iechyd i gael ei ddarparu gan FIP Caerdydd a'r Fro. Mae hyn wedi arwain at ychwanegu meddyg teulu llawn amser arall at y tîm ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol o ran lleihau amseroedd aros o'u cymharu â'r misoedd blaenorol ac felly at wella'r modd y diwellir anghenion iechyd y carcharorion.

Mae cyfathrebu electronig rhwng gofal iechyd a'r ysbytai wedi bod yn broblem weithiau, yn enwedig o ran rhyddhau carcharorion a meddyginiaeth. Nid yw'r system TG ar gyfer cofnodi cleifion yn electronig wedi ei chyflwyno eto ond mae'r holl geblau a sgriniau bellach yn eu lle i fynd yn fyw ym mis Tachwedd 2011. Rhagwelir y bydd cyfathrebu yn gwella pan fydd y system wedi ei gosod ac mae'r hyfforddiant i staff i hwyluso hyn wedi ei gwblhau.

Mae Carchar EM Caerdydd wedi newid ei boblogaeth o garcharorion eleni i ddarparu ar gyfer carcharorion ar remand a rhai sy'n oedolion ifanc gyda dedfrydau o lai na dwy flynedd. Cafwyd pwysau cynyddol ar Ofal Iechyd oherwydd y trosiant cyflym a'r ffaith fod yr unigolion hyn yn mynd drwy'r system mor gyflym. Maent yn ymddangos gyda chyflyrau meddygol amrywiol y rhoddir sylw iddynt wrth iddynt gael eu symud i mewn neu allan, ac mae'r broses yn dechrau eto. Mae angen i gynllunio ar gyfer y math hwn o garcharor gael ei ddilyn ymlaen mewn asesiadau yn y dyfodol mewn Gofal Iechyd.

Mae carcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl yn parhau i fod yn broblem ac mae cwestiynau yn parhau ynghylch addasrwydd carchardai ar gyfer rhai o'r unigolion hyn. Darperir y Tîm Iechyd Meddwl integredig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Maent yn ymdrin â charcharorion sydd â salwch meddwl difrifol a pharhaus ac yn cynnal asesiadau risg ac yn ymgymryd â chynllunio ar gyfer rhyddhau carcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau. Yn ddiweddar, cafodd Therapydd Galwedigaethol llawn amser ei recriwtio sydd â phrofiad o weithio gyda phersonél y carchar, a gwneir ymdrechion i gael Cwnselwyr o Brifysgol gerllaw i gynorthwyo gyda thriniaethau. Mae hwn yn faes y mae angen ei fonitro fel y rhoddir y cymorth gorau posib i garcharorion ddelio â'u hansefydlogrwydd meddyliol neu ddiffygion emosiynol .

Cystodaeth Mwy Diogel a Lleihau Trais

Mae 2 reolwr rhan amser, 1 swyddog amser llawn, 1 gweithiwr sifiliaid amser llawn a gweithiwr clerigol yn y Tîm Cystodaeth Mwy Diogel. Mae aelodau'r tîm hwn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac fe'u perchir o fewn y carchar.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau ACCT (Gofal Asesiad mewn Cystodaeth a Gwaith Tîm). Ers Mehefin 2012 cafodd y gwaith o reoli achosion ei ddirprwyo'n llawn i 'SOs' yr Adeiniau. Cyfrifoldeb y Rheolwr Adain yw hysbysu Oscar 1, pan agorir ACCT. Mae Cystodaeth mwy Diogel yn enwebu Rheolwr Achos, sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir asesiad ac yna bydd yn cwblhau 'Gweithredu yn dilyn Asesiad' a Map Gofal gyda'r Asesydd. Mae'r Tîm Cystodaeth Mwy Diogel ar gael i oruchwylio'r llyfrynnau ACCT a chynnig cymorth ac arweiniad. Mae aelod o'r tîm ar gael 7 diwrnod yr wythnos. Defnyddir adolygiadau monitro ACCT ar ôl cau; ac mae'r cyntaf yn orfodol ar 7 diwrnod. Gwneir adolygiadau pellach ar ddyddiadau y cytunwyd arnynt.

Cafodd y rhan fwyaf o ACCTs eu hagor yn yr ardal Derbyn, Sefydlu a Dadwenwyno. Mae gan bob aelod staff fynediad at ddogfennau ACCT a Mapiau Gofal.

Mae'r strategaethau Cystodaeth Mwy Diogel yn cynnwys lleoli carcharorion y cafodd eu risg ei asesu mewn celloedd dwbl a chaniatáu mynediad at Wrandawyr pryd bynnag y bo modd. Mae ffôn rhad ac am ddim ar gael i'r Samariaid. Caiff carcharorion a ystyrir sydd mewn mwy o risg eu cadw mewn celloedd diogel. Caiff carcharorion y mae risg ynghlwm wrthynt ymweliad yn aml gan y SO a'r aelod o sifiliaid sydd yn y tîm Cystodaeth mwy Diogel.

Mae rheolwyr wedi cael hyfforddiant Rheoli Achosion a darparwyd hyfforddiant pellach yn y sesiynau hyfforddi misol ar ddechrau'r cyfnod adrodd. Mae'r sesiynau hyn bellach wedi cael eu cynyddu i 2 y mis.

Yn ystod y cyfnod adrodd agorwyd 251 ACCT. Cafwyd 116 o achosion o hunan-niwed; mae'r rhain yn ffigurau uwch na rhai 2009/2010 ac yn adlewyrchu'r newid yn oed y carcharorion sydd bellach yn cael eu derbyn i Garchar EM Caerdydd. Mynegwyd pryder mai ychydig iawn o weithgaredd, ar wahân i sesiwn celf 2 awr, a ddarparwyd ar gyfer carcharorion sydd wedi hunan-niweidio ac sy'n cael eu lleoli mewn Gofal Iechyd. Tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd hwn darparwyd Therapydd Galwedigaethol a thechnegydd i Inreach. Gobeithir y gall carcharorion sydd wedi hunan niweidio ac a leolir mewn Gofal Iechyd gymryd rhan yn y sesiynau a ddarparwyd.

Yn ystod y cyfnod adrodd roedd 3 marwolaeth yn y ddalfa ynghyd ag un carcharor a fu farw pan oedd yng chystodaeth yr heddlu.

Cynhaliwyd 7 cwest Crwner yn ystod y cyfnod adrodd. Teimlai'r BMA (IMB) bryder mawr ynghylch y cwest i farwolaeth carcharor a gymerodd ei fywyd ei hun ym mis Hydref 2009. Mynegwyd y pryder hefyd yn 'Rheol 43, Adroddiad y Crwner' a ysgrifennwyd gan y crwner ac a anfonwyd at yr Arglwydd Ganghellor a Llywodraethwyr carchardai. Yn yr un modd, mynegwyd pryder gan yr Ombwdsmon. Rhestrwyd cyfres o fethiannau drwy gydol cyfnod y carcharor yn y carchar a lluniwyd cynlluniau gweithredu mewn ateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Crwner a'r Ombwdsmon. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro'r modd y caiff y problemau systemig a godwyd eu datrys.

Lleihau Trais

Mae un swyddog o'r Tîm Cystodaeth Mwy Diogel yn delio gyda Lleihau Trais (Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) a Bwlio.

Ymchwiliwyd i 394 o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn gynydd ar ffigyrau'r llynedd sef 277 o ddigwyddiadau. Mae hyn fwy na thebyg yn adlewyrchu'r newid ym mhoblogaeth y carchar a'r cynnydd yn nifer y carcharorion iau.

Daw'r prif ffynonellau gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad o lyfrau Gwybodaeth yr Adain, aelodau staff, a SIRs (Adroddiadau Gwybodaeth am Ddiogelwch)

Yr Uned Gwahanu

Mae'r uned wahanu yn cael ei rheoli'n dda gan staff ymroddedig sy'n ymwneud yn broffesiynol, yn effeithlon ac yn drugarog â'r carcharorion yn eu gofal. Mae'r uned bob amser yn lân ac yn daclus. Ymwelir â'r carcharorion yn yr uned bob dydd gan y Llywodraethwr, staff Gofal Iechyd a'r Gaplaniaeth. Mae aelod rota'r BMA (IMB) bob amser yn ymweld yn ddyddiol yn ystod ei wythnos ar ddyletswydd. Hysbysir y BMA (IMB) bob amser drwy neges dros y ffôn am newydd-ddyfodiaid yn yr uned.

Mae'r holl waith papur yn cael ei gadw'n gyfredol ac mae ar gael ar gais. Mae llwybr archwilio trylwyr ar gael o'r holl drafodion, digwyddiadau a rhyngweithio ar yr uned. Mae ffurflenni manylion Defnyddio Grym, Llety Arbennig a Chyfyngiadau Mecanyddol yn cael eu copïo i'r BMA (IMB) fel mater o drefn.

Cynhelir Dyfarniadau ac Adolygiadau yn unol â gofynion cyfreithiol a gweithdrefnol a hysbysir yr aelod BMA (IMB) ar ddyletswydd am wrandawiadau fel mater o drefn. Mae Llywodraethwyr a Staff yn rheoli'r broses yn dda er bod y lleoliad yn gyfyng ac yn anffafriol i gynnal un o swyddogaethau ffurfiol pwysig y Carchar. Mae dyfarnwr allanol yn gwrando ar achosion a gyfeiriwyd yn y Carchar bob mis ac mae'r staff Seg yn cefnogi'r swyddogaeth hon yn dda gyda thystiolaeth, dogfennaeth, hebryngwyr, cynrychiolwyr cyfreithiol a thystion i'w rheoli.

Yn ystod y flwyddyn adrodd cynhyrchwyr 70 o ffurflenni Defnyddio Grym, defnyddiwyd Llety Arbennig 6 gwaith ac roedd 21 o brotestiadau budr. Mae'r staff yn ymdrin â phrotestiadau budr yn lanwaith ac mae carcharorion yn cael cynnig cawod bob dydd. Mae'r protestiadau hyn yn aflonyddu'n enfawr ar drefn ac ar argaeledd llety yn Seg. Mae'r gwaith o lanhau'r celloedd yn cael ei wneud gan contractwyr.

Ceir pryderon yn aml gyda charcharorion y mae eu hymddygiad troseddol yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl. Yn gyffredinol, ceir cyswllt effeithiol gyda'r tîm In Reach ond mae dod o hyd i lety mwy addas yn broblem.

Agweddau eraill ar Gyfundrefn y Carchardai y mae gan y Bwrdd Faterion i Adrodd yn eu cylch

Arlwyo Mae'r Bwrdd yn canmol lefel perfformiad uchel cyson y swyddogaeth Arlwyo yng Nghaerdydd. O dan arweinyddiaeth broffesiynol ac ymatebol y Rheolwr Arlwyo, mae'r holl staff yn cyflawni safonau cyson uchel o ddarparu ar gyfer cymuned amrywiol a heriol o fewn cyfyngiadau trefn y carchar.

Rhai a alltudir Mae'r Bwrdd yn aml yn dod ar draws achosion o ddiffyg cynnydd ymddangosiadol ymysg gwladolion tramor nad oes ganddynt unrhyw lwybr alltudio clir. Mae hyn yn digwydd fel arfer pan fydd y wlad dychwelyd yn peri risg diogelwch i'r unigolyn, pan fo symud yn ffisegol anodd, pan nad oes gan yr unigolyn basbort neu ddogfennau teithio eraill a phan na chafwyd

cytundeb ynghylch ail-leoli i Ganolfan Ddal ar gyfer Mewnfudwyr. Y canlyniad yw bod unigolion yn aros o fewn cyfundrefn y carchar pan nad ydynt bellach yn garcharorion y System Cyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn anghyfiawnder sy'n rhoi straen ychwanegol ar Gyfundrefn y Carchardai.

Sefydlu Mae newidiadau i ddeiliadaeth wedi effeithio'n sylweddol ar gyfradd y rhai sy'n mynd drwy'r uned Sefydlu. Yn ogystal, mae llawer o'r rhai a sefydlwyd ym mhen iau'r ystod oedran ac yn debygol o fod yn fwy dryslyd nag eraill. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio mwy ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol agos ac yn gweithio gyda staff y Carchar i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn ôl yr angen.

Cludiant Mae newid darparwr Trafnidiaeth y Carchar wedi creu llawer o broblemau ac wedi newid arferion y carchar. Dangosodd staff y Dderbynfa hyblygrwydd clodwiw wrth ymdopi â'r newid ac wrth leihau unrhyw effaith ar symudiad.

Gwaith y Bwrdd

Gweithgareddau a Chyfansoddiad

	2008/2009	2009/2010	2010/2011
HAWL Y BWRDD	17	17	17
NIFER O AELODAU'R BWRDD AR DDECHRAU'R FLWYDDYN ADRODD	8	12	13
AELODAU AR DDIWEDD Y FLWYDDYN	11	12	12
AELODAU NEWYDD YN YMUNO	4	1	4
AELODAU YN GADAEL	3	1	5
CYFANSWM CYFARFODYDD Y BWRDD	12	12	12
CYFARTALED PRESENOLDEB YNG NGHYFARFODYDD Y BWRDD	9	8	7
CWYNION FFURFIOL			54
CEISIADAU A DDERBYNIWYD	379	552	383
DYFARNIADAU A GYNHALIWYD	1444	1691	1240
DYFARNIADAU A FYNYCHWYD	394	741	459
ADOLYGIADAU SEG A GYNHALIWYD	299	132	70
ADOLYGIADAU SEG A FYNYCHWYD	63	23	10
FFURFLENNI DEFNYDDIO GRYM A DDEFNYDDIWYD	65	78	70
LLETY ARBENNIG A DDEFNYDDIWYD	4	2	6
PROTESTIADAU BUDR	23	17	21

Ceisiadau

	2006/7	2007/8	2008/9	2009/10	2010/11
LLETY	22	22	11	14	13
YN YMWNEUD AG AMRYWIAETH	7	4	8	6	3
ADDYSG / CYFLOGAETH	23	19	20	23	12
YMWELIADAU	33	19	44	39	14
BWYD / CEGIN	13	10	13	8	7
IECHYD	54	59	40	111	103
STAFF / MEDDYG				12	15
MEDDYGINIAETH				27	38
PENODIADAU				9	18
DEINTYDD				24	20
ERAILL				39	12
EIDDO	44	34	30	49	43
YN YMWNEUD Â DEDFRYD	62	42	68	55	96
YN GYSYLLTIEDIG Â STAFF / CARCHAR	17	12	24	19	12
TROSLWYDDIADAU	66	42	31	59	21
AMRYWIOL	66	66	68	79	58
CEISIADAU A DDERBYNIWYD	416	365	379	552	383
DYFARNIADAU A GYNHALIWYD					1240
DYFARNIADAU A FYNYCHWYD					459

